1/4

# HANES

Llwyddiant diweddar

# Yr EFENGYL,

A

## Rhyfeddol Waith Duw,

AR

Eneidiau Pobl yn *North America*:

MEWN

# LLYTHYR

Oddiwrth

## Y Parchedig Mr. *Buel*,

O *East-Hampton*,

## At y Parchedig Mr. *Barter*.

At yr hyn y chwanegwyd,

CAN am werthfawrogrwydd y BIBL.

---

*Gan* WILLIAM WILLIAMS.

---

CAERFYRDDIN,
Argraphwyd tros yr Awdwr, gan J. Ross.
1766.

X 205250792

# Hanes llwyddiant diweddar yr Efengyl, &c.

*Anwyl Barchedig Frawd,*

GRAS, Trugaredd, a Thangnefedd — a gaffo ei fawrhau, gan oll yn y Nefoedd ac ar y Ddaear, ag sy 'n caru llwyddiant Seion. Tragwyddol Glod i'r tragwyddol Dduw, Tad, Mab, ac Ysbryd Glan; y Iesu mawr, yr anfeidrol drugaredd, i'r hwn y mae 'r Nef dragwyddol yn ymgrymmu: A'r Jehofa ei hun yr hwn sydd yn dyfod i wared trwy gynhyrfiad dwyfol yn, ac ar galonnau pobl *East-hampton*, trwy ryfeddol nerth a gogoniant; uwchlaw oll a welais o'r blaen, ac oll a ddarllenais, neu a glywais am dano er prif amseroedd Cristianogaeth. Amryw wythnosau o'r blaen, yr oedd Duw yn parottoi ei ffordd. Ei blant ei hun a gawsant eu llenwi yn rhyfeddol a chariad, gorfoledd duwiol, ac ocheneidiau anrhaethadwy, mewn gweddiau am dywalltiad helaeth o'r Ysbryd arnom. Ein cynulleidfaoedd yn lluosog a difrifol. Yr oedd saethau argyhoeddiad (yn ebrwydd yn ol pregeth) yn glynu ynghalonnau pechaduriaid. Hyn a barhaodd tros dalm o amser aeth heibio; eithr er's wythnos Nef, ac Uffern a ymddangosodd megis yn teyrnasu yma yn eneidiau dynion. Pobl Dduw a gawsant (bron oll) eu ffafrio a'r cyfryw ddadguddiadau o oleuni, cariad a chysuron: (ac a fuant tan y fath boenau, ing, a gofid am bechod o'r blaen) ag yr ymddangosodd (megis pe buasai

Enaid

Enaid a chorph yn ymwahanu: ie mewn llaweroedd tu hwnt i ddim ag a allaf ei amgyffred ond trwy 'r hyn a welais yn awr.

Eithr Oh! y llef, drylliedig lef a thaerni pechaduriaid am drugaredd, trugaredd, trugaredd, trugaredd maddeuol er mwyn Crist i'r pennaf o bechaduriaid. Y cyfryw weddio am drugaredd, O'r fath ddisgwiliad, ac mewn ffordd o ymostyngiad i Dduw; myfi a glywais gan wragedd, pobl ieuaingc, a phlant yn aneirif y cyfryw gyhoeddiad o ddyfnder pechod dyn wrth natur, ac ymarferiad; cyfiawnder Duw, ac anfeidroldeb haeddiant Crist, &c. Ac oll gan y rhai ag oedd yn ymofyn am drugaredd, tu hwnt i'r hyn oll a glywais, neu a ddarllenais am danynt. Tŷ Dduw a thramwyad iddo bob dydd, gan bobl yn gyffredinol erbyn naw ar gloch, er na byddai cyhoeddiad o'r blaen oddieithr un o'r dyddiau. Y pryd y tebygid fod o amgylch mil o bobl; ac oll yn ymddangos (mewn rhyw fesur) tan argraph a theimlad pwysig o bethau dwyfol. Erioed ni welais y cyfryw gynhulliad o'r blaen. Gogoniant Duw yn llanw 'r Tŷ; ein Cwiriau, Rhodfeydd, uwch-risiau, (galeris) ac îs, yn cynnwys eneidiau archolledig a chystuddiedig. Ac o bryd i bryd, o ddydd i ddydd, yr Ysbryd Glân a ddaeth megis gwynt cryf nerthol, weithiau bron tebyg i lewyrch mellten yn ddisymmwth yn darostwng y cynulleidfaoedd, ac yn gweithio y cyfryw gyfyngderau enaid erioed ag a glywsoch. Y mae fy nhŷ beunydd, (pan na byddom yn nhŷ Dduw) yn dechreu llenwi yn foreu, gan bechaduriaid a'u llef am drugaredd hyd ddeg yn yr hwyr. Eu llef allasech glywed ymhob tŷ, fel y rhodiech yr heolydd. Yn fyrr y mae nifer o'n hen Gristianogion yn tystio hynny; fel ag yr wyf yn

 meddwl

meddwl pe byddai i un gynnig ffurfio dychymmyg (Idea) o'r pethau hyn, er na's gwelsant, y gallent feddwl (oreu medrent) pa fodd y bydd yn nydd y Farn. Pan fo pobl Dduw yn llawn o'i orfoledd dwyfol, a phechaduriaid yn llawn o uffern. Mi a welais yn wir nifer fawr yn yr wythnos ddiweddaf, y rhai y meddyliai un na allai 'r damnedigion (braidd) deimlo mwy o ddigofaint Duw. Yr wyf yn tybied fod gennyf sicrwydd ysgrythurol bod niferoedd o bobl gwedi profi cyfnewidiad cadwedigol.

Eithr er's wythnos, neu ychydig ragor, y mae llawer o honynt, ( fel yr ymddangosodd i eraill megis iddynt eu hunain ) gwedi dyfod fel o ddychryniadau uffern i'r nefoedd. Gwyr a gwragedd, rhieni a'u plant mewn gobaith eu bod wedi eu geni o'r nefoedd. Yr holl dref fel yn plygu ger bron y gwaith hwn, o ryfeddol allu a gogoniant; ac braidd ymddangosiad o un allan o Grist uwch wyth mlwydd oed; ac braidd yr un tan hynny nad ydynt yn difrifol ymofyn pa beth a wnant i fod yn gadwedig. Y mae bron oll o'n pobl ieuaingc fel eraill o honynt, o wyth, deg, neu ddeuddeg oed yn awr yn obeithiol ddychweledigion. Ac ymhlith eraill Juddew, yr hwn y mae gennyf achos i obeithio ei fod yn wir gredadyn yn y Messia, yr hwn yr oedd beunydd, hyd o fewn ychydig ddyddiau yn ei ddirmygu; Goruchwiliaeth Duw iddo ef sydd ryfeddol. Ni's gallaf yn awr braidd wahaniaethu nerth gwirionedd yr Ysgrythurau ar galonnau tan y ddeddf, nad yw cymhwysiad yr Efengyl er hyn, yn y gwaith hwn yn fwy rhyfeddol. Y mae rhai o'n Ustusiaid a gwyr ein tref yn cyfaddef nad oeddynt fodlawn o'r blaen i waith Duw yn ei fawr allu, yr awr hon yn plygu ger bron y gwaith hwn, yr hwn a

ymaflodd

ymaflodd yn eu calonnau hwy. Un o honynt yn tyſtio mewn cyfyngder enaid, mai gwaith Duw yw hyn oll, Oh! na b'ai ran i minnau ynddo: un arall yn dywedyd, yr wyf yn ofni nad oes dim trugaredd i mi mwy na'r cythreuliaid; etto ped fawn i farw yr awr hon, gadawn fy nhyſtiolaeth mai gwaith Duw yw hwn. Arall a 'r dagrau yn rhedeg o'i olygon a ddywedodd, y mae'r Nef wedi dyfod i wared i *Eaſt-hampton.* Y maent yn y cyſtuddiau mwyaf am ran yng Nghriſt. Wedi eu plygu oll fel un dyn. Ni's gwelſoch chwi na minnau erioed y gorchymyn cyntaf gwedi ei wirio fel yn awr yn y dref hon. Y mae cannoedd etto mewn cyfyngder enaid am Iachawdwr, yn achwyn o herwydd caledwch eu calonnau, tywyllwch eu meddyliau, &c. Gallaf yn unig rhoddi iwch hanes ferr o'r hyn a fu, ag fydd: Eithr pa beth ſydd yn y blaen ni's gwn. Etto y mae 'n ymddangos, yn breſenol, fel pe b'ai Duw yn y ffordd i wneud i bawb ei adnabod o'r lleiaf hyd y mwyaf. Yr wyf yn ficrhau iwch (anwyl frawd) os wyf yn gwybod dim am waith Duw ynghalon dŷn, oddiwrth air Duw, a gweinidogion duwiol ac awdwyr. Oddiwrth brofiadau eraill am rym crefydd, ac yn fy enaid fy hun o amgylch deg ar hugain o flynyddoedd; na's gallaf lai na chadarnhau er gogoniant Duw, (mor belled ag gallaf farnu wrth yr holl bethau hyn) fod y gwaith hwn ſy'r awr hon yn *Eaſt-hampton* y mwya tebyg i waith Duw, gwaith Criſt, y mwya rhagorol, a gogoneddus a'r a glywais erioed. Os gall un dyn alw 'r gwaith hwn o eiddo Duw yn hudoliaeth Satan, o ran y ſylwedd o hono, ni's gallant wneuthur mwy na'r cythreuliaid eu hunain. Eithr ymherthynas i hynny, nid wyf yn gofalu, y mae 'r gwaith

 yn

yn llaw Duw, ac yno bydded yn dragwyddol. Chwi a wyddoch [barchedig frawd] fy mod yn aſtudio 'r prophwydoliaethau mewn perthynas i ogoniant y dyddiau diweddaf, tros dalm o flynyddoedd aethant heibio; ac yr oeddwn ar ddatcan argoedd o'r Argraphwaſg, (nid gan bennodi amſeroedd y cyflawniad) yn obeithiol o'i fod yn agos; yr oeddwn bron dangos o bedair Tywyſogaeth *Daniel*, a Dadguddiad *Joan*, ynghyd a phrophwydoliaethau cytunol a hwy. Eithr y mae 'r gwaith hwnnw yn fy ymyl yn breſenol, o herwydd y mae digon o waith yn *Eaſt-hampton* yn awr i lawer o weinidogion, yr wyf yn gobeithio fod rhyw lewyrchiadau o'r *Gaerſalem* newydd yn awr yn torri allan. Yma yn fy yſtafell a mannau eraill y clywaf lef pechaduriaid am drugaredd. Gan rai pobl ieuaingc canu Salmau, a Hymnau, a chan Blant megis gwedi dyfod o ddychrynfeydd uffern. Y geiriau hyn a fynych waeddir allan, *Y mae 'r* BRENHIN JESU *yn teyrnaſu, unig hallalluog Fab Duw.*

Yn fyrr, ni's gallaf ymhelaethu, y mae pobl yn gyffredin yn barod i feddwl, fod yr amſer wedi dyfod, pan y rhaid torri trwodd am fywyd tragwyddol.

Y mae'n holl bobl ieuaingc ſydd heb Griſt yn gweled y byd yn wag, ac fel yn ymroi na orphwyſant, ac na chymmerant un cyſur, oddieithr iddynt ei gael yn yr Arglwydd Jeſu Griſt. Pa fodd bydd i'r ymddangoſiadau rhagorol hyn derfynu, ni pherthyn i mi ddywedyd yn breſenol. yn unig yr ydwyf yn dywedyd i chwi yr hyn a fu, ac ſydd yn awr. Eithr ni's gwn (am un awr) pa beth ſydd yn y blaen. Ond bod gennyf yr holl fodlonrwydd ſydd arnaf ei eiſiau, heb gymmeryd arnaf adnabod y galon,

fod nifer fawr o bobl yn awr yn ddiweddar, wedi eu geni, a chyd a dyſgyblion Criſt yn rhwym i ogoniant. Nid wyf yn cymmeryd arnaf Yſbryd Prophwydoliaeth, eithr gallaf feddwl na bydd i'r gwaith gogoneddus hwn ddiweddu yma, ac mi anturiaf ddywedyd, os bydd i'r gwaith hwn gael ei dannu a'i ennyn trwy *Loegr newydd*, (fel yr attolygaf ar Dduw ei fod) yr wyf yn credu y bydd mwy gwybodaeth o Dduw a Chriſt, a rhyfeddol waith ei ſanctaidd Yſbryd, ac o galon dyn, nef ac uffern nac erioed o'r blaen, yn fwy diamgyffred meddaf os daw i wared yn gyffredinol ar galonnau pobl megis yma; fe fydd yn ei amſer ef ei hunan, a hynny fydd oreu; yn y cyfamſer, gobeithio y bydd i weinidogion Duw, y rhai ſy 'n caru dyfodiad ein Harglwydd Jeſu Griſt, a'i deyrnas, eu cael yn yſbryd *Elias*, ac ymddangos yn llawn o'r Yſbryd Glân. Cynnorthwyed Duw ei anwyl blant, yn ddibaid, ac yn wreſog erbyn y cyfryw ddydd, a nerth a gogoniant. Y mae yn rhyfedd (pan y golygir yn gywir) ein bod yn byw mewn dyddiau, ag y mae myrddiynau yn myned i uffern, o wir ddiffig y dwyfol gynhyrfiadau hyn oddiuchod. Yr wyf yn meddwl yn ddiau eich bod yn chwennych gwybod pa fodd y bu gyda 'm henaid i y tymmor hwn, nid oes gennyf odfa i luoſogi geiriau, caf yn unig ddywedyd (gan roi 'r gogoniant i Dduw) fod fy ymarferiadau yſbrydol, dwyfol ddadguddiadau, cynhaliaeth, cyſuron, cynnorthwyadau, mewn meſur yn ol achos neillduol fy nydd. Mi a wn fod arnaf eiſiau doethineb *Gabriel*, ſel *Seraphim*, perffeithrwydd Saint mewn gogoniant. Boed i Dduw fy nal i fynu, canys heb hynny ni's gallaf ei waſanaethu ef, gweddiwch yn daer troſof (fy anwyl frawd) a rhoddwn yr

holl

holl ogoniant i'r ſanctaidd Ddrindod, y cwbl a'n cyflawn anrhydedd, canys felly rhaid bod, ac felly byddo gyd a'n heneidiau yn dragwyddol, ac oll yn y Nefoedd, &c. *AMEN.*

# Gwerthfawrogrwydd y Bibl.

1 DYma'r Llyfr mae fy nhryſor,
Dyma'r drych cai weld fy Nuw;
Ynddo 'n fwy boed fy myfyrdod,
Nag mewn Awdwyr o unrhyw;
Llyfr gadwodd yn ei fywyd,
Trwy ddyfnderoedd dw'r a thân;
Lluſern i oleuo'm llwybr
Trwy dyfnderoedd mawr ymla'n.

2 Fil o weithiau rhuthrwyd arno,
Fe ddioddefodd ymdrech fawr;
Dyſg, a diddyſg, fu'n cytuno
Gael fy Mibl pur i lawr;
Sefyll wnaeth yn erbyn tonnau,
Daeth i'r lan er gwaetha'r llif,
Fe goncwerodd o elynion
Lawer fwy na'r ſêr o rif.

3 Rhai ſy'n ceiſio ei gamgyfieithu,
Rhai ſy'n ceiſio gwadu rhan;
Ac er cymmaint yw ei awdurdod,
Rhai ſy'n ceiſio ei wneud yn wan;
Ganwaith c'nigwyd dwyn eu arfau,
C'nigwyd cloddio tan ei Sail,
Ond er dyfais Daer ac Uffern,
Mae'n diſgleirio fel yr Haul.

4 Er i *Rufain* a'i chyfrwyſdra
Geiſio ei gadw ef ynghudd,
Ymhob jaith, ac ymhob cenedl,
Fe ga's weled goleu'r dydd;

Mae

Mae e' nawr yn ei ogoniant,
  Ym marchogaeth yma a thraw,
Rhwng y tlodion gwael yn *Nghymru*
  Ar balmwydden yn ei law.

5 Cant o filoedd maith a rhagor,
  'Nawr o jenctyd glandeg fydd,
Yn ei ddarllain fel dweud Pader
  O *Gaergybi* i *Gaerdydd*;
Deliwch fechgyn at eich Pyngciau
  Goch'lwch wyro yma a thraw,
Gau athrawon gais eich hudo
  Cewch eu gweled maes o law.

6 Ceifiodd *Arius*, ceifiodd *Morgan*,
  Ceifiodd amryw gyda hwy,
Eich denu o lwybrau pur y Bibl,
  A rhoi i'ch fymlrwydd glwy;
Fe gais cant o Sectau newydd
  Tu yma i foroedd a thu draw,
Hudo rhei'ny fydd yn heppian
  I ryw gorfydd yn eu llaw.

7 Fe gais fegur ddyn o *Scotland*
  Gennych ddyfod tan ei nod;
Wedi ei wifgo a chenfigen
  O'i falch goryn hyd ei droed;
Y balch, y jach, y cenfigenus,
  Yr ymryfongar, a'r llawn llid,
A gais lufgo ei Athrawiaethau
  ‡ Cloffion tros yr afon *Tweed*.

8 Ac mewn 'madrodd coeg cellweirus,
  Fe ry abfen i bob dyn,

Ac

‡ Am fod y rhan fwyaf o Athrawiaethau Mr. *Sandeman* yn gloff, megis ag y mae ei Gyfiawnder ef ar Dduw; ond ei Sicrwydd ar Law'r Dyn, ac nid oddiwrth Dyftioliaeth yr Yfbryd. —— Eilwaith y mae ef ar y naill lîn pan y mae ei Ffydd heb un Cymhwyfiad ag allo ddwyn Heddwch a Llawenydd. O ffyn-baglau crinion!

Ac a ddamnia fyrdd o bobl,
  Lawer gwell nag ef ei hun ;
Fe gais gennych ffieiddio teimlad
  Ac awelon pur y Ne',
A rhoi'r credu noeth digysur
  Sydd gan Ddiafol yn ei le.

9 Wrth ei ysbryd chwi 'nabyddwch,
  Croes i Ysbryd Bibl Duw,
Ni thyf *ffigys* fyth ar *Draenen*,
  Ni thyf *Pomgranad* ar *Iw* ;
Ni chawd ysbryd tirion, tyner,
  Llawn faddeugar, a di sen,
Etto erioed gan galon gysan
  Sydd a'i Grefydd yn ei ben.

10 Credu hanes noeth yw ei gredu,
  Credu heb Ysbryd, credu heb rym,
Yn annuwiol pur wrth gredu,
  Yntau ni thâl credu ddim ;
Credu heb ronyn o gymhwysiad
  Credu bod rhyw ras i rai,
Sael yw'r heddwch, tlawd yw'r cysur
  Trist a gwan yw'r llawenhau.

11 Ni chaiff argyhoeddiad symryn,
  Ni chaiff calon ddrylliog le,
Ni chaiff cariad nag ymddiried
  Fod ynghwmpni ei gredu e' ;
Nid yw'r *Pentecost* yn perthyn,
  Bedydd ysbryd, bedydd tân,
Fwy na *Lapland* fawr i *Guiney*
  I grediniaeth *Sandimane*.

12 Cariad ydyw'r holl Orch'mynion,
  Caru yw'r cynta, caru yw'r ail ;
Cariad yw cyflawnder cyfraith,
  Cariad hefyd yw ei sail ;
Os cadwodd *Pike* ei ddeg Gorchymyn,
  Methodd *Sandy* er maint ei gân,
Can's y mae'r Gorchymyn newydd,
  Wedi ei anghofio ganddo'n lân.

13 Dysg fi Dduw a chydig eiriau,
Dorri sŵn ei falchedd fref,
Fel y caffo'th bobl lonydd,
Gan ei ringcian dannedd ef;
Tynn di'r ddagr loyw allan,
Mae dy ddagr di yn llym,
Torr ei wthi cenfigenus
Yno'n unig mae ei rym.

14 Tynn y beilchion dwl diddeall
A aeth yn *Nghymru* ar ei ol,
Rho iddynt fflammiau pur y nefoedd
Jesu gwasg hwy yn dy gol;
Rho iddynt funud awr o'th brofi,
A gweld bod dy gariad dryd;
Yn fwy melus wrth ei deimlo
Na gwrthddadlu am dano o hyd.

15 Gad i ninnau astudio'r Bibl,
A myfyrio'n gwers i ma's;
Synnu, caru, a rhyfeddu
'Th faith, ac anherfynol ras;
Gorphwys yn dy hyfryd gariad,
Heb weld cenfigenus lid,
Caru nes concwero pechod,
Caru nes concwero'r byd.

16 Dyma'r llyfr wyf yn barchu
'N fwy na myrdd o lyfrau maith,
Llyfr Duw a Thest'ment Jesu,
Arwain f'Enaid ar fy nhaith;
Cyfarwyddwr pur i'r Nefoedd,
Llewyrch traed y Seintiau yw,
Clofen dân o foroedd *Edom*,
I'r Baradwys nefol wiw.

17 Boed fy myfyrdodau aml,
Yn ei lyfr sanctaidd ef;
Na bwyf wrando dynion beilchion,
O un ardal tan y Nef.;
Dyn sy'n hudo i gyfeiliornad,
Llyfr Duw sy'n dangos bai,

Dysga'r

Dysgu'r Enaid clwyfus gredu,
Dysgu'r credu, difarhau.

18 Sefwch weinidogion ffyddlon,
Sefwch gedyrn Duw yn glau,
Cadwch afael ar y Bibl,
Rhag ei rwygo nawr yn ddau;
Gwaeddwch allan haeddiant Jesu,
Gwaeddwch allan wir iachad;
Trwy grediniaeth calon ddrylliog,
Yn ei werthfawroccaf waed.

19 Cadwch afael ar yr ysbryd,
Ysbryd teimlad a mwynhau,
'R hyn gysylltodd Duw na adwch,
Iw ei rannu e' fyth yn ddau;
Bibl cryno ini'n mofyn,
Sydd a'i Athrawiaethau yn un,
A chael prawf o'i wirioneddau
Yn ein Calon yn gytun.

T E R F Y N.

---

*Caerfyrddin, Chwefror* 22, 1766.

*Ar fyrr fe gyhoeddir yn* Gymraeg, *gan* J. Ross,
(Prîs Swllt wedi ei rwymo, 8 *d*. heb hynny)
Lyfr, a elwir,

*Ocheneidiau o Uffern:*

NEU

RIDDFANNAU

Enaid damnedig.

Yn dangos
Cyflwr galarus y Damnedigion, mewn ffyddlon Esponiad ar Ddammeg
Y Gwr goludog a Lazarus,

*Gan* JOHN BUNYAN.